

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Mai 2015

**STATWS: GWYBODAETH**

**CATEGORI: LLYWODRAETHU**

**Teitl: Rhannu gwybodaeth am gleifion rhwng gweithwyr proffesiynol gofal iechyd - datganiad ar y cyd oddi wrth Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a Choleg yr Optometryddion**

**Dyddiad dod i Ben / Adolygu**

Ddim yn gymwys

**I'w weithredu gan:**

*Byrddau Iechyd*

**Angen gweithredu erbyn :**

*Ar unwaith*

**Anfonir gan : Barbara Ryan – Prif Gyngorydd Optometrïg**

**Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :**

*Sarah O'Sullivan-Adams*

Pennaeth y Gangen Polisi Awdioleg ac Offthalmïg

Cyfarwyddiaeth Polisi Gofal Iechyd

*Sarah.o'sullivan-adams@wales.gsi.gov.uk*

**Dogfen(nau) amgaeedig: Dim**

## **Rhannu gwybodaeth am gleifion rhwng gweithwyr proffesiynol gofal iechyd - datganiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a Choleg yr Optometryddion**

Ar 20 Mawrth 2015 cyhoeddodd Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a Choleg yr Optometryddion ddatganiad ar y cyd yn annog offthalmolegwyr i rannu gwybodaeth glinigol â'r optometrydd atgyfeirio, gweler y datganiad ar y cyd isod.

Dylai Byrddau Iechyd Sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau ysbytai yn hybu'r cyfathrebu hwn er mwyn iddo ddod yn arfer safonol ar gyfer gofal cynlluniedig a heb ei gynllunio ym maes offthalmoleg yng Nghymru.

### Datganiad ar y cyd:

Mae gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol hawl i ddisgwyl i'w gwybodaeth bersonol aros yn gyfrinachol. Er hynny, mae pobl hefyd yn disgwyl i weithwyr proffesiynol rannu gwybodaeth ag aelodau eraill o'r tîm gofal. Mae arferion da wrth rannu gwybodaeth [1], pan fydd rhannu'n briodol, yr un mor bwysig â chadw cyfrinachedd. Mae optometryddion, fel proffesiynolion wedi'u rheoleiddio, yn rhan o'r tîm gofal iechyd felly mae hi fel rheol er lles y cleifion i offthalmolegwyr rannu gwybodaeth glinigol â'r optometrydd atgyfeirio. Bydd hynny'n gwella gofal y claf a gofal cleifion yn y dyfodol, trwy ddarparu adborth defnyddiol am y diagnosis a'r dulliau rheoli. Bydd hefyd yn lleihau dyblygu profion, ac o bosibl ail-atgyfeiriadau. Oni bai bod polisi'r ysbyty'n rhoi gwaharddiad penodol ar anfon copiâu o lythyron ar optometryddion, dylai offthalmolegwyr anfon copiâu o lythyron Ymarferwyr Cyffredinol at yr optometrydd atgyfeirio yn cadarnhau cydsyniad y claf. Rhaid i'r cydsyniad gael ei gofnodi yn y nodiadau.

Gall optometryddion helpu i sicrhau eu bod yn cael adborth trwy gynnwys eu henw a'u manylion cyswllt bob amser ar y llythyr atgyfeirio.

[1] y Fonesig Fiona Caldicott, The Information Governance Review, Mawrth 2013, tudalen 21 <https://www.gov.uk/government/publications/the-information-governance-review>

<https://www.rcophth.ac.uk/2015/03/sharing-patient-information-between-healthcare-professionals-a-joint-statement-from-the-royal-college-of-ophthalmologists-and-college-of-optometrists/>